

# Pwy sydd fwyaf tebygol o deimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol? (Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 23)

---

Defnyddir canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 yma i ymchwilio i'r ffactorau sy'n gysylltiedig â theimlad pobl eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol. Rydym wedi rheoli ystod o ffactorau, felly hyd yn oed pan fo cysylltiad rhwng ffactorau (e.e. oedran ac iechyd cyffredinol) gellir archwilio'r cyswllt rhwng pob ffactor a theimlo gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau yn annibynnol.

## Canfyddiadau allweddol

Mae pobl yn fwy tebygol o deimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau os ydynt:

- Wedi'u haddysgu i lefel gradd neu uwch;
- Mewn iechyd da yn gyffredinol;
- Yn byw ar Ynys Môn, yng Nghaerffili neu yn Abertawe, o'i gymharu â Sir Benfro a Blaenau Gwent;
- Yn teimlo bod pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch;
- Yn teimlo'u bod yn rheoli eu bywyd beunyddiol.

Ni chanfuom gyswllt rhwng y canlynol a theimlo'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau yn yr ardal leol: oedran; hunaniaeth genedlaethol; rhywedd; gwlad enedigol; crefydd; statws priodasol; bod ag anabledd neu afiechyd hirdymor cyfyngol; bod â mynediad at y rhyngwyd yn yr aelwyd; byw mewn ardal drefol neu wledig; bod mewn amddifadedd sylweddol; bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan; a hefyd teimlo'n ddiogel yn yr ardal leol.

---

## 1. Cefndir

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) wedi'i bwriadu i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy sefydlu saith nod llesiant. Mae'r Ddeddf yn gosod gofyniad cyfreithiol ar Lywodraeth Cymru i bennu [dangosyddion cenedlaethol](#) sy'n mesur i ba raddau y mae'r nodau llesiant yn cael eu cyrraedd. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddangosydd 23: 'Y ganran sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.'

Defnyddir [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) i fesur cynnydd yn erbyn llawer o'r dangosyddion cenedlaethol hyn. Arolwg wyneb yn wyneb, ar raddfa fawr sy'n casglu gwybodaeth fanwl am farn a llesiant pobl ydyw. Fe ymatebodd 14,285 o bobl i arolwg 2014-15. Mae'n darparu gwybodaeth gadarn am farn pobl ynglŷn ag ystod eang o faterion.

## **2. Mesur y teimlad o allu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol**

Rhoddwyd y gosodiad canlynol i ymatebwyr: "Rwy'n gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar fy ardal leol" a gofynnwyd iddynt "i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y gosodiad hwn yn berthnasol i (enw'r cyngor)?" Fe atebodd yr ymatebwyr ar raddfa ac iddi bum rhan, o 'cytuno'n gryf' i 'anghytuno'n gryf'. Cafodd pobl a ymatebodd gan ddweud eu bod yn 'cytuno'n gryf' ac yn 'tueddu i gytuno' eu gosod mewn 'categori cytuno'. Ar y cyfan, roedd 20% yn cytuno eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.

## **3. Dull o ddadansoddi**

I gael dealltwriaeth glir sut y mae pob ffactor unigol yn cyfrannu at deimlo'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau lleol, fe ddefnyddion ni dechneg a elwir yn ddadansoddiad atchweliad. Mae dadansoddiad atchweliad yn ein galluogi i archwilio'r cysylltiadau rhwng ffactorau penodol a theimlo'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau.

Er enghraifft, gwyddom fod pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o deimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol. Fodd bynnag, mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig hefyd yn fwy tebygol o fyw mewn awdurdodau lleol penodol. Gall hyn ei gwneud yn anodd gwybod ai oherwydd eu bod yn byw mewn ardal wledig ynteu oherwydd eu bod yn byw mewn awdurdod lleol penodol y mae pobl yn teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol. Unwaith y caiff ffactorau eraill eu rheoli, gan ddefnyddio dadansoddiad atchweliad, mae'n amlwg nad yw byw mewn ardal wledig, ynddo'i hun, yn effeithio ar y teimlad o allu dylanwadu ar benderfyniadau lleol. Ond mae ardal awdurdod lleol yn effeithio ar deimlad pobl eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau, hyd yn oed pan gaiff ffactorau eraill eu hystyried.

Mae'r dadansoddiad o bob ffactor a gyflwynir isod yn rheoli ystod o ffactorau eraill, felly gall y cyswllt rhwng pob ffactor sydd o ddiddordeb gael ei ynysu a'i archwilio. Mae gan yr holl ffactorau yr adroddir arnynt isod gyswllt ystadegol arwyddocaol â theimlo'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol (hynny yw, rydym yn hyderus bod y canfyddiadau hyn yn gadarn ac nid wedi deillio'n syml o amrywioldeb yn amcangyfrifon yr arolwg).

Yn aml gall dadansoddiad atchweliad adnabod perthnasoedd rhwng ffactorau; fodd bynnag, ni all ddweud wrthym am achosiaeth. Er bod achosiaeth yn gymharol glir ar gyfer rhai ffactorau yn seiliedig ar wybodaeth flaenorol (e.e. go brin bod teimlo'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau'n achosi newidiadau mewn iechyd cyffredinol; mae iechyd cyffredinol mwy na thebyg yn achosi newidiadau o ran teimlo'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau lleol), ar gyfer eraill mae'r berthynas rhwng achos ac effaith yn fwy niwlog (gall ardal awdurdod lleol effeithio ar y teimlad o allu dylanwadu ar benderfyniadau lleol; gall y teimlad o allu dylanwadu ar

benderfyniadau lleol ddylanwadu ar ddewis o ardal awdurdod lleol). Felly, lle nad yw gwybodaeth flaenorol yn gwneud cyfeiriad achosiaeth yn glir rydym wedi nodi'n gyffredinol y gall achosiaeth weithio yn y naill gyfeiriad neu'r llall (neu'r ddau).


I gael disgrifiad llawn o'r modd y gwnaethom gwblhau'r dadansoddiad, gweler yr [adroddiad technegol](#) sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

#### 4. Prif ganfyddiadau: rhagfynegyddion ar gyfer teimlo'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol

Wrth reoli ffactorau eraill, canfuwyd fod y canlynol yn rhagfynegyddion ar gyfer teimlad rhywun ei fod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn ei ardal leol<sup>1</sup>.

**Cymhwyster uchaf:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae pobl â chymwysterau sydd ar lefel gradd ac uwch yn fwy tebygol o deimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (0.24)<sup>2</sup> na'r rhai â lefelau cymwysterau is, fel a ddangosir yn Ffigur 1.

*Ffigur 1: Y cyswllt rhwng y cymhwyster uchaf a theimlo'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau<sup>3</sup>*



**Iechyd cyffredinol:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae pobl sy'n dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn dda'n fwy tebygol o deimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol (0.21), fel a ddangosir yn Ffigur 2<sup>4</sup>.

<sup>1</sup> Os nad yw'r barrau gwallau ar gyfer pob ymateb yn gorgyffwrdd, mae'r gwahaniaeth rhwng yr ymatebion yn ystadegol arwyddocaol. Cyfrifir y cyfyngau hyn ar sail amcangyfrif ar gyfer yr arolwg ac maent yn rhoi ystod y mae'r gwir werth yn debygol o fod oddi mewn iddi. Mewn 95% o samplau'r arolwg, bydd y cyfwng hyder o 95% yn cynnwys y 'gwir' ffigwr ar gyfer y boblogaeth gyfan. Mae hyn yn golygu bod gennym lefel uchel o hyder bod gwahaniaeth gwirioneddol yn y boblogaeth gyffredinol – nid yw'r canfyddiad yn debygol o fod o ganlyniad i amrywioldeb yn yr amcangyfrifon ar sail y sampl o bobl a arolygwyd.


<sup>2</sup> Wrth reoli'r ffactorau eraill, byddai tebygolrwydd o 0 yn dynodi tebygolrwydd o 0% y byddai ymatebydd yn y grŵp yma'n teimlo'i fod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar ei ardal leol. Byddai tebygolrwydd o 1.0 yn dynodi tebygolrwydd o 100%.

<sup>3</sup> Os nad yw'r barrau gwallau ar gyfer pob ymateb yn gorgyffwrdd, mae'r gwahaniaeth rhwng yr ymatebion yn arwyddocaol ar y lefel 0.05.

\* Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.


<sup>4</sup> Er bod y barrau gwallau'n gorgyffwrdd ychydig, dangosodd profion pellach fod y gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol.

Ffigur 2: Y cyswllt rhwng iechyd cyffredinol a theimlo'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau



**Ardal awdurdod lleol:** Pan gedwir ffactorau eraill yn gyson, mae pobl o Ynys Môn (0.26) a Chaerffili (0.25) yn fwy tebygol o deimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol na phobl o Sir Benfro (0.14), Blaenau Gwent (0.15) a Cheredigion (0.16), fel a ddangosir yn Ffigur 3.


Ffigur 3: Y cyswllt rhwng ardal awdurdod lleol a theimlo'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau



**Teimlo'ch bod yn rheoli eich bywyd beunyddiol:** Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson, mae pobl sy'n cytuno'u bod yn rheoli eu bywyd beunyddiol yn fwy tebygol o deimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol (0.21), fel a ddangosir yn Ffigur 4.

\* Pan gedwir ffactorau eraill yn gyson.


*Ffigur 4: Y cyswllt rhwng teimlo eich bod yn rheoli eich bywyd beunyddiol a theimlo eich bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau*



Y tebygolrwydd o deimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau\*

**Teimlo eich bod yn cael eich trin â pharch:** Pan gedwir ffactorau eraill yn gyson, mae pobl sy'n cytuno bod pobl yn eu trin â pharch yn fwy tebygol o deimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau lleol (0.21) na'r rhai sy'n anghytuno (0.12), fel a ddangosir yn Ffigur 5.

*Ffigur 5: Y cyswllt rhwng teimlo bod pobl eraill yn eich trin â pharch a theimlo eich bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau*




Y tebygolrwydd o deimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau\*

Mae Ffigur 6 yn crynhoi cyfraniad pob ffactor tuag at deimlo'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol.

\* Pan gedwir y ffactorau eraill yn gyson.

Ffigur 6: Y tebygolrwydd o deimlo'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau<sup>5</sup>



<sup>5</sup> Fel yn flaenorol, gellir defnyddio'r barrau gwallau i weld ble y ceir gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol ymhlith categorïau o bob ffactor: os nad yw'r barrau'n gorgyffwrdd, mae'r gwahaniaeth yn debygol o fod yn wahaniaeth 'gwirioneddol'. Fodd bynnag, ni fyddai'n gywir (nac yn ystyrion) casglu bod barrau gwallau nad ydynt yn gorgyffwrdd yn golygu bod categori o un newidyn (e.e. pobl ag addysg i lefel gradd) yn rhagfynegi'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau'n arwyddocaol wahanol i gategori o newidyn arall (e.e. pobl ag iechyd cyffredinol da).

## 4.1 Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â theimlo'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau

Ni chanfuom gyswllt rhwng y canlynol a theimlo'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau yn yr ardal leol:

- oedran;
- hunaniaeth genedlaethol;
- rhywedd;
- gwlad enedigol;
- crefydd;
- statws priodasol;
- bod ag anabledd neu afiechyd hirdymor cyfyngol;
- bod â mynediad at y rhyngwrdd yn y cartref;
- byw mewn ardal drefol neu wledig;
- bod mewn amddifadedd sylweddol;
- bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan; a hefyd
- teimlo'n ddiogel yn yr ardal leol.

Mae manylion pellach o ran y modd y gwnaethom gwblhau'r dadansoddiad ar gael yn yr [adroddiad technegol](#) sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hwn.

Awdur yr adroddiad: Cathryn Knight, Prifysgol Caerdydd



I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Lisa Walters

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: [lisa.walters@cymru.gsi.gov.uk](mailto:lisa.walters@cymru.gsi.gov.uk)

Ffôn: 0300 025 6685

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol: 978-1-4734-8758-1